RHYBUDD O GYNNIG – Cynnig i ddiswyddo Arweinydd y Cyngor a’r Cabinet.

Ystyried cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Pauline Edwards, Geraint Lloyd-Williams, Paul Keddie, Merfyn Parry, Andrea Tomlin, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Williams, Karen Edwards a Chris Evans.

Dymunwn ddwyn cynnig gerbron i ddiswyddo’r Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan a’i Gabinet. Mae digwyddiadau diweddar yn ymwneud ag arweinyddiaeth y cyngor wedi codi pryderon difrifol am eu heffeithiolrwydd. Mae gweithrediad trychinebus ac aneffeithlon y system ailgylchu gwastraff newydd, ynghyd â'r diffyg eglurder ac atebolrwydd a amlygwyd mewn papur briffio diweddar, wedi arwain at golled hyder yn llwyr ymhlith trigolion.

Yn fwy na hynny, mae sgîl-effeithiau'r system newydd hon wedi rhoi straen sylweddol ar adrannau eraill o fewn Cyngor Sir Ddinbych, wrth i adnoddau staff gael eu dargyfeirio i fynd i'r afael â methiannau'r fenter ailgylchu. Mae'r dargyfeiriad hwn wedi arwain at gynnydd amlwg mewn costau gweithredu, sydd yn ei dro wedi cael effaith negyddol ar wasanaethau rheng flaen sy'n hanfodol i'r gymuned.

Mae diffyg strategaeth ac arweiniad effeithiol wedi achosi cryn her i drigolion ledled y sir, ac mae'r goblygiadau ariannol i'r awdurdod wedi bod yn aruthrol. Nid yw bellach yn gynaliadwy cynnal y dull hwn, a rhaid rhoi’r flaenoriaeth i les trigolion Sir Ddinbych. Felly, fel aelodau o’r grŵp annibynnol, galwn yn gryf ar yr Arweinydd a’i Gabinet i ymddiswyddo.